**Dysgu gostyngeiddrwydd**

Y 26ain o Ebrill, 1986. Damwain adweithydd niwclear yn Atomfa Niwclear Chernobyl yn yr Wcrain, rhan o'r Undeb Sofietaidd bryd hyny. Trychineb Chernobyl. Y drychineb waethaf erioed mewn gorsaf yni niwclear. Achosodd i lawer iawn o ddeunydd ymbelydrol gael ei ryddhau yn sgîl gwyriadau pŵer enfawr a ddinistriodd yr adweithydd. Effeithiodd fywydau miliynau o bobl.

Yn ddiweddar, creuwyd cyfres gan gwmnïau darlledu Sky a HBO yn cofnodi'r hanes. Mae'n ddirdynol erchyll, arteithiol. Gwelais y benod gyntaf; ond ers hyny – mae'n rhaid i mi gyfaddef – 'dyw'r 'stwmog ddim 'di bod 'da fi i wylio mwy.

Ar y 26ain o Ebrill, 1986, ffrwydrodd adweithydd rhif pedwar yng ngorsaf yni Chernobyl, ger Pripyat yng Ngweriniaeth Sofietaidd yr Wcrain. Bu ffrwydradau pellach a achosodd i dân ddanfon cymylau o fwg hynod ymbelydrol i'r atmosffer gan orchuddio ardal ddaearyddol eang. Rhyddhawyd bedwar can gwaith mwy o ymbelydredd nag a wnaed gan Fom Atomig Hiroshima ym 1945.

Symudodd y mwg dros ranau helaeth o orllewin yr Undeb Sofietaidd, Dwyrain Ewrop, Gorllewin Ewrop, Gogledd Ewrop a rhan ddwyreiniol Gogledd America, gyda glaw niwclear ysgafn yn glanio yn Iwerddon hefyd. Llygrwyd rhanau helaeth o'r Wcrain, Belarws a Rwsia, gan achosi i dros 336,000 o bobl fudo ac ymgartrefi mewn llefydd eraill. Yn ôl data swyddogol ôl-Sofiet, glaniodd tua 60% o'r ymbelydredd ym Melarws.

Arweiniodd y drychineb at nifer o bobl yn mynegi pryder am y diwydiant yni niwclear yn yr Undeb Sofietaidd, ac arafodd datblygiad yni niwclear yno am nifer o flynyddoedd, gan orfodi'r llywodraeth Sofietaidd i fod yn llai cyfrinachol. Mae Rwsia, yr Wcrain a Belarws wedi gorfod ymdrin â'r broses sylweddol o ddi-heintio a'r costau meddygol sylweddol a ddaeth yn sgîl trychineb Chernobyl. Mae'n anodd priodoli nifer pendant o farwolaethau oherwydd trychineb Chernobyl, am fod ymdrechion y llywodraeth Sofietaidd i gelu'r ystadegau wedi ei wneud yn anodd tracio'r holl ddioddefwyr. Roedd rhestrau'n anghyflawn, ac yn ddiweddarach gwaharddwyd doctoriaid rhag nodi "ymbelydredd" ar dystygrifau marw gan yr awdurdodau Sofietaidd.

Amcangyfrifir fod yr holl drychineb wedi costio rwy £200 biliwn yn arian heddiw. Mewn adroddiad yn 2005 a gynhyrchwyd gan Fforwm Chernobyl, o dan arweiniad yr Asiantaeth Yni Niwclear Rhyngwladol a Chyfundrefn Iechyd y Byd, priodolwyd 56 marwolaeth yn uniongyrchol i'r drychineb (47 o weithiwyr adeg y ddamwain a naw o blant gyda chancr y thyroid, ac amcangyfrifir y gallai fod 4,000 o farwolaethau eraill o gancr o'r 600,000 posib a oedd wedi profi'r ymbelydredd. Er fod rhanau o Chernobyl na ellir mynd iddynt o hyd, ystyrir y rhan fwyaf o ardaloedd a effeithiwyd bellach yn ddiogel i fyw yno ac ar gyfer gweithgarwch economaidd.

Effeithiodd y ddamwain ar ddiwydiant amaeth rhan sylweddol o Ewrop, gan gynwys gwledydd Prydain. Un o'r ardaloedd yr effeithwyd arni yn ddrwg oedd gogledd Cymru. Disgynodd glaw yn cynwys deunydd ymbelydrol ar yr ucheldiroedd. O ganlyniad, cyfyngwyd ar weithgarwch 5,100 o ddaliadau fferm a 2,000,000 o ddefaid. Rhoddwyd gwaharddiad ar werthu oen a defaid i'w bwyta neu eu symud y tu allan i'r ardaloedd penodedig oherwydd y lefelau uchel o radiocaesiwm yn eu cyrff. Yn 2006, ugain mlynedd yn ddiweddarach, roedd 359 daliad a 180,000 o ddefaid yng ngogledd Cymru yn dal oddi mewn i'r ardaloedd cyfyngedig. Yn ôl yr Athro Glyn O Phillips, arbenigwr ar effeithiau ymbelydredd ar y corff ddynol, gall effeithiau Chernobyl ar Gymru fod genym am genedlaethau. Yn ei eiriau ef, "The word that they use officially is low risk. But risk is a very difficult question when you deal with low level radiation. There is great uncertainty, and extrapolation is only possible with time, and we will only see in the next generation, or generation after that, whether there are any significant effects to be demonstrated."

Y gred gyffredinol oedd fod sistemau rheoli a diogelwch Chernobyl yn ddigon da i sicrhau na fyddai’r fath ddamwain yn bosib. Ond fe ddigwyddodd. Mae dyn yn aml yn meddwl ei fod yn deall, ei fod yn alluog, ei fod yn sicr o’i le a’i ffeithiau. Ond dro ar ol tro daw’r digwyddiad - ambell dro yn drychuneb erchyll - a brofa fod hyn ddim yn wir. Mae angen menter a dytblygiad, ond mae angen pwyll hefyd. Syndod, gan gofio Chernobyl, nad yw dyn wedi dysgu ychydig mwy o ostyngeiddrwydd, o wyleidd-dra.

***Chernobyl***
*20191110*

*Cyni y cnoi, canu cnùl; nos ffwrnais*
*Uffernol, cri’r engyl;*
*Rhanu o boen Chernobyl,*
*Y wyrth a drodd yn erthyl.*

**Darlleniad – aberthau byw. Rhufeiniaid Penod 12**

Gadewch i mi ddweud hyn wrthoch chi, fel rhywun mae Duw wedi bod mor garedig ato: Peidiwch meddwl eich bod chi'n well nag ydych chi. Byddwch yn onest gyda chi'ch hun wrth ystyried faint o ffydd mae Duw wedi'i roi i chi. Mae'r eglwys yr un fath â'r corff dynol – mae gwahanol ranau i'r corff, a dydy pob rhan o'r corff ddim yn gwneud yr un gwaith. Yn yr eglwys r’ŷn ni gyda'n gilydd yn gwneud un corff, sef corff y Meseia. Mae pob un ohonon ni'n rhan o'r corff ac mae arnon ni angen pawb arall. Mae Duw wedi rhoi doniau gwahanol i bob un ohonon ni. Os ydy Duw wedi rhoi'r gallu i ti roi neges broffwydol, gwna hyny pan wyt ti'n gwybod fod Duw am i ti wneud. Os mai helpu pobl eraill ydy dy ddawn di, gwna job dda ohoni. Os oes gen ti'r ddawn i ddysgu pobl eraill, gwna hyny'n gydwybodol. Os wyt ti'n rhywun sy'n anog pobl

eraill, bwrw iddi! Os wyt yn rhanu dy eiddo gydag eraill, bydd yn hael. Os oes gen ti'r ddawn i arwain, gwna hyny'n frwd. Os mai dangos caredigrwydd ydy dy ddawn di, gwna hyny'n llawen.

**Gweddi**

Gweddïwn am y gallu i fentro, i fod yn ddewr er mwyn i ni allu wneud daioni. Ond ar yr un pryd, gofynwn am y doethineb i sylweddoli fod yna derfynau i'n deall a'n gallu. Mae datblygiadau democratiaeth, gwyddoniaeth, diwydiant, masnach a chyfathrebu byd eang wedi creu byd modern seciwlar â llawer amdano i ni fod yn falch iawn ohono. Ond mae hefyd wedi creu'r argraff - camargraff - fod dyn hwyrach yn deall popeth o bwys sydd angen ei ddeall. Gweddïwn am y doethineb i sylweddoli nad ydym yn deall y byd o'n cwmpas, na rhan y ddynoliaeth ynddo, yn dda o gwbl.

Yn anffodus, mae 'na dueddiad i ddyn i fod yn gul ei feddwl, a meddwl ei fod yn deall y cwbl, pan mewn gwirionedd mae'n deall bron dim. Tueddwn fod yn rhy sicr o bopeth, ac yn ddiamynedd tuag at eraill sydd â barn gwahanol. Anwybyddwn wersi miloedd o flynyddoedd o athroniaeth ddynol ddwys a dysgeidiaeth Gristnogol. Mae'n gor-hyder a'n ffolineb yn arwain at ddamweiniau fel Chernobyl, a chamsyniadau meddygol fel thalidamide. Mae'n gor-hyder a'n ystyfnigrwydd yn arwain at atgasedd, at greulondeb, at lofruddiaeth, at dwptra rhyfel, at ffieiddrwydd anodd-ei-gredu fel yr Holocost a "show-trials" y comiwnyddion ym 50au'r ganrif ddiwethaf. Mae'n anallu i weld ein gwendidau a'n hanwybodaeth, a'n anallu i fyw mewn gostyngeiddrwydd, yn arwain at fyd gyfalafol lle mae rhai yn byw mewn moethusrwydd anhygoel ac eraill yn marw yn eu miloedd o newyn a chlefyd. Mae'n arwain at gynhesu byd eang ac Extinction Rebellion. Ac mae'n arwain at eithafiaeth wleidyddol ddi-hud fel ym Mrydain ar y pryd.

Gad i ni gofio mai cariad yw'r ateb, ac mae dim ond cariad yw'r ateb. A gad i ni gofio cyngor Wesley: "Gostyngeiddrwydd ac amynedd yw'r prawf sicrhaf o gynydd cariad."

Er mwyn Ei Enw, A-men.